the Money Advice Service

Cyfrifwch faint fyddwch chi ei angen wedi ymddeol

I sicrhau bod gennych ymddeoliad cyfforddus, bydd angen i chi sicrhau bod gennych ddigon o arian i fyw arno. Yma gallwch gyfrifo faint o incwm fydd gennych, faint fydd eich costau yn debygol o fod ac os oes gennych ddigon o arian i ymdopi wedi i chi ymddeol.

1. Amcangyfrifwch eich incwm

Mae gan y rhan fwyaf o bobl fwy nag un ffynhonnell o incwm mewn ymddeoliad. Mae'n bwysig nodi eich holl ffynonellau incwm i weld faint fydd gennych i fyw arno o gymharu â'ch incwm heddiw.

Ffynonellau incwm	Nawr (y mis)		Pan fyddwch yn ymddeol (y mis)	
	Chi	Eich partner	Chi	Eich partner
Gwaith Nid yw'r incwm hwn wedi ei warantu am oes a bydd yn gostwng os ydych yn torri i lawr ar waith neu'n stopio'n gyfan gwbl.	£	£	£	£
Pensiwn y Wladwriaeth (diogel) Mae'r incwm hwn wedi ei warantu am oes a bydd yn codi yn unol â chwyddiant o leiaf bob blwyddyn.	£	£	£	£
Pensiynau buddion wedi'u diffinio (diogel) Mae'r incwm hwn wedi ei warantu am oes ac fel arfer yn codi bob blwyddyn.	£	£	£	£
Budd-daliadau'r wladwriaeth Efallai yr effeithir ar yr incwm hwn os yw'ch amgylchiadau'n newid.	£	£	£	£
Incwm arall Gallai hyn fod o gynilion, buddsoddiadau ac unrhyw eiddo yr ydych yn berchen arno. Gall yr incwm hwn amrywio.	£	£	£	£
Incwm cronfa bensiwn – blwydd-dal (diogel) Os byddwch yn prynu blwydd-dal gydol oes, bydd hyn yn eich darparu ag incwm diogel, rheolaidd am oes.	£	£	£	£
Incwm cronfa bensiwn – tynnu i lawr Gall hyn yn eich darparu ag incwm hyblyg ond nid yw wedi ei warantu am oes.	£	£	£	£
Cyfanswm incwm	**£**	**£**	**£**	**£**
A **Eich incwm chi a'ch partner**	**£**		**£**	

2. Cyfrifwch eich treuliau

Mae'ch gwario yn debygol o newid pan fyddwch yn ymddeol. Er enghraifft, efallai na fyddwch yn gorfod talu am forgais neu gostau gwaith ond os gwariwch chi fwy o amser adref yna gallai'ch biliau cartref gynyddu.

Treuliau	Nawr (y mis)	Pan fyddwch yn ymddeol (y mis)
Biliau'r cartref Er enghraifft, morgais/rhent, y Dreth Gyngor, trydan, nwy, dŵr, yswiriant adeiladau ac yswiriant cynnwys	£	£
Teledu, Rhyngrwyd, Ffonau Er enghraifft, ffonau cartref/symudol, band eang, teledu lloeren/digidol, trwydded deledu, tanysgrifiadau ffilm/chwaraeon a meddalwedd gwrth firws.	£	£
Costau byw Er enghraifft, bwyd, nwyddau ymolchi, meddyginiaeth, prydau cludo, ciniawau a byrbrydau, torri gwallt, chwaraeon/aelodaeth o gampfa, sigarennau a thybaco.	£	£
Benthyca Er enghraifft, ad-daliadau benthyciadau, ad-daliadau cardiau credyd, taliadau gorddrafft, ad-daliadau hurbrynu/catalog a thaliadau banc.	£	£
Teulu a ffrindiau Er enghraifft, cynhaliaeth/cefnogaeth plentyn, bwyd anifail anwes, biliau milfeddyg ac anrhegion pen-blwydd.	£	£
Teithio Er enghraifft, tocynnau bws/trên tanddaearol/tram/trên, treth cerbyd, yswiriant cerbyd, cyllid/ad-daliadau benthyciad cerbyd, MOT, petrol/disel, atgyweirio a chynnal a chadw.	£	£
B **Cyfanswm gwariant**	**£**	**£**

3. Cymharu eich cyllidebau

Cyfrifwch eich cyllideb fisol a'i gymharu â'ch cyllideb ymddeol. Os bydd gennych ddigon o incwm diogel, rheolaidd i dalu'ch costau, mae hynny'n dda. Os na, byddwch naill ai angen cynyddu eich incwm neu leihau eich gwariant i gael dau ben llinyn ynghyd.

	Nawr (y mis)	Pan fyddwch yn ymddeol (y mis)
A **Eich incwm chi a'ch partner**	£	£
B **Cyfanswm gwariant**	£	£
A – B **Gwahaniaeth**	**£**	**£**